

Dameg y Wledd Fawr



Cyflwyniad

Yn Luc 14:15-24, mae Iesu'n dweud Dameg y Wledd Fawr ac yn ein hatgoffa bod Duw yn ein gwahodd i ymuno ag Ef ar gyfer dathliad arbennig.

Prif Bwyntiau:

- Mae Duw yn ein gwahodd i ddod i'w wledd.
- Bydd pobl naill ai'n derbyn neu'n gwrthod y gwahoddiad hwn.
- Ddylen ni ddim gwneud esgusodion i Dduw.

Canllaw gwersi

Os yn bosib, dewiswch ardal parti bach gyda balwŷns, lliain bwrdd, a rhai byrbrydau. Dywedwch wrth eich plentyn ein bod heddiw yn mynd i ddarllen stori ddywedodd Iesu am ddyn a pharti arbennig. Darllenwch Luc 14:15-24.

Ydych chi erioed wedi cynnal parti? Beth fydddech chi'n ei fwyta, yfed, chwarae, neu ddefnyddio fel addurniadau? Trefnwch barti ar gyfer teganau eich plentyn. Gallant wahodd doliau, ceir tegan, neu anifeiliaid anwes. Gwnewch fyrbryd syml ac ychydig o addurniadau. Crëwch wahoddiadau. Wrth i chi gerdded o amgylch y tŷ i "wahodd" y gwesteion, gwnewch esgusodion. All y gath ddim dod am fod angen iddi gael napyn. Mae'r lori deganau am gloddio yn y mwd. Mae'r ddol yn mynd i chwarae.

Trafodwch y ffordd mae'r plentyn yn teimlo pan fydd pawb yn gwrthod y gwahoddiad i'r parti. Ydyn nhw'n teimlo'n dda neu'n ddrwg? Sut fydden nhw'n teimlo pe ba'r gwahoddiad wedi bod i'r wledd fwyaf fawreddog erioed yn lle i barti syml?

Esbonwch fod Iesu wedi marw ar y groes er mwyn i bobl gael mynd i'r nefoedd a threulio tragwyddoldeb gyda Duw. Yn union fel roedd gan y bobl lawer o esgusodion i beidio dod i'r Wledd Fawr, mae pobl yn gwneud llawer o esgusodion i beidio dod at Dduw. Efallai na fyddwn ni'n dewis ych yn lle Iesu, ond a fydden ni eisiau rhywbeth arall? Efallai na fydden ni'n dewis maes, ond a fydden ni'n dewis arian? A fydden ni'n dewis pobl eraill o flaen Iesu?

Siaradwch am gyfnod pan wnaeth eich plentyn esgus i beidio â gwneud y peth iawn.


Gan ddefnyddio cardiau a fenthyciwyd o'r wers hon neu rai syml rydych chi'n eu creu, chwaraewch gêm o'r enw "Pwysicach." Y nod yw cael cymaint o gardiau â phosib. Dylai'r cardiau gynrychioli pethau fel yr eglwys, Duw, chwaraeon, anifeiliaid anwes, teulu, bwydydd ac ati. Mae pob person yn dangos cerdyn, ac mae'r cerdyn pwysicaf yn cymryd yr holl gardiau. Wrth i chi chwarae, mwynhewch drafod pam mae cathod yn bwysicach na chŵn neu gacen yn bwysicach na ffrwythau. Efallai y byddwch hefyd yn chwarae drwy roi cardiau i pob person a'u cael i'w gosod o'r top i'r gwaelod yn ôl y pethau pwysicaf yn eu barn. Wrth ichi chwarae, siaradwch am sut y dylai Duw ddod yn gyntaf bob amser.

Agorwch eich Beibl a dwedwch sut mae'r Beibl yn cynnig gwahoddiad hefyd. Mae Duw yn gwahodd pobl i edifarhau, credu yn Iesu, a threulio tragwyddoldeb gydag Ef. Bydd rhai pobl yn gwrthod y gwahoddiad hwn, ond bydd eraill yn cael eu galw gan Dduw i'w dderbyn.

Darllenwch rai o'r gwahoddiadau rydyn ni'n eu darllen yn y Beibl. Er enghraifft, Mathew 11:28, Marc 1:17, Ioan 7:37.

Diolchwch i Iesu am ddarparu ffordd i dderbyn gwahoddiad Duw. Gweddiwch a gofyn iddo eich helpu chi i beidio byth â gwneud esgusodion iddo.

Y Wledd Fawr



Un diwrnod, dywedodd Iesu
stori am ddyn cyfoethog a
gynlluniodd wledd arbennig.
Rhoddodd restr o bobl i'w was
i'w gwahodd.
Roedd yn bwriadu cael y
wledd orau erioed.

Cafodd y dyn cyfoethog a'i
westeion newydd amser
gwych.
Dywedodd Iesu wrth y bobl
fod Duw yn ein gwahodd ni i'w
dŷ ar gyfer dathliad arbennig.
Rhaid i ni ei roi Ef yn gyntaf
bob amser.
Dydy Iesu ddim eisiau i ni gollu
allan.



Rhoddodd y gwas y gwahoddiadau i'r bobl.

Onid gwneud esgusodion am nad oedden nhw eisiau dod i'r part wnaethon nhw.

Roedden nhw'n meddwl bod ganddyn nhw bethau pwysicach i'w gwneud.



Roedd y dyn cyfoethog yn ddiig.

Dywedodd wrth ei was i fynd i'r strydoedd a gwahodd y tlawd, y llwglyd, y digartref, a'r sâl i ddod i'w barti.

Doedd y bobl yma ddim yn gallu credu y bydden nhw'n cael eu gwahoddi i ddigwyddiad mor arbennig.

Gêmau a Gweithgareddau

Gêmau'r Parti

Bydd unrhyw fath o gêm barti yn gweithio'n dda gyda'r wers hon. Dim ond dewis rhai ffefrynnau teuluol fel pasio'r parcel, cerfluniau cerddorol, neu roi ei gwt ar yr asyn.

Holwch eich plentyn pa gêmau y bydden nhw'n hoffi eu chwarae yn eu parti perffaith.



Coginiwch!

Treuliwch ychydig o amser yn coginio neu'n paratoi pryd o fwyd gyda'ch plentyn. Yn naturiol byddwch yn cyflwyno sgiliau mathemateg sylfaenol drwy gyfrif, mesur, a phwyso cynhwysion. Helpwch eich plentyn i ddilyn cyfarwyddiadau gam wrth gam drwy ddarllen y rysâit.

Ceisiwch ganolbwyntio ar y paratodau sydd angen eu gwneud er mwyn i'r wledd ddigwydd. Gofynnwch i'ch plentyn sut y byddai'n teimlo pe bai'n paratoi gwledd fawr a daeth neb.




Beth sydd ar goll o'r bwrdd?

Gosodwch blatiau, cyllyll, ffyrc, llwyau, cwpanau, ac ati ar eich bwrdd. Dylai'r plant edrych i'r cyfeiriad arall tra'ch bod chi'n tynnu un eitem o'r bwrdd. Yna dylai eich plant geisio darganfod pa eitem sydd ar goll o'r bwrdd. Cymerwch dro i dynnu pethau oddi ar y bwrdd.




Trefnwch gardiau yn ôl eu pwysigrwydd



Nodyn: Dylai'r atebion fod yn bersonol

Rhowch wahoddiadau'r parti yn
y drefn gywir




Pwy wnaeth fwyta beth yn y parti?




d



1



b



2




c



3



d



4










a

b







c

d

Helpwch bob plentyn i ddod o hyd i'w gadair



Cyfrfwch y siapiau ar yr hetiau parti



Crefft matiau bwrdd



Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Tudalen dempled,
Pensiliau lliwio,

Peiriant lamineiddio neu bocedi wedi eu lamineiddio neu lewys plastig a thâp.

Beth i'w wneud:




Lliwio'r dudalen.






Lamineiddio'r dudalen i'w hamddiffyn.






Neu ei storio mewn llawes blastig.











Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.

Stori:

<https://youtu.be/D6jXBilHrLM>

Guess What

<https://youtu.be/CDtvXCodak0>

It's A Party

<https://youtu.be/iNnvFgsteb4>

His Banner Over Me is Love

<https://youtu.be/nSRWUdztKxE>



Gweddi

Diolchwch i Dduw am eich gwahodd i dreulio tragwyddoldeb gydag Ef.

Gofynnwch iddo eich helpu i ddweud wrth bawb am Ei wahoddiad mawr.

Wythnos Nesaf

Y Gwas Anfaddeugar
(Mathew 18:21-35)

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.

truewaykids.com/subscribe/

